# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Mawrth 2014 i'w hateb ar 18 Mawrth 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am addysg gwyddoniaeth yng Nghymru? OAQ(4)1570(FM)

2. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru dros ddiogelwch gwylwyr mewn digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru? OAQ(4)1559(FM)

3. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Beth yw llwyddiant mwyaf Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru? OAQ(4)1569(FM)**W**

4. **Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i fynd i'r afael â phrinder staff yn y GIG sy'n gallu siarad Cymraeg? OAQ(4)1562(FM)**W**

5. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u darparu i awdurdodau lleol o ran pennu eu cynlluniau cyllideb? OAQ(4)1561(FM)

6. **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog nodi pryd y bydd y Bil Anghenion Addysgol Arbennig yn cael ei gyflwyno? OAQ(4)1558(FM)

**7. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu addysg am ddim i blant tair oed? OAQ(4)1560(FM)

**8. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Gweinidogion mewn cysylltiad â'r hyn a elwir yn gyffuriau anterth cyfreithlon? OAQ(4)1568(FM)

**9. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ffioedd a delir i sefydliadau allanol i reoli rhaglenni sy'n gysylltiedig â'i strategaeth yn erbyn tlodi? OAQ(4)1554(FM)

**10. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i awdurdodau addysg lleol i ddelio â sefyllfaoedd lle mae amgylchiadau ariannol yn creu anhawster i gydymffurfio â rheolau gwisg ysgol? OAQ(4)1567(FM)**W**

**11. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)1555(FM)

**12. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran trafnidiaeth integredig yng Nghymru? OAQ(4)1565(FM)

**13. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gwariant ar iechyd yng Nghymru? OAQ(4)1552(FM)

**14. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi economi gorllewin Cymru? OAQ(4)1553(FM)

**15. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio gwyddoniaeth i wella'r economi? OAQ(4)1566(FM)